



Ysgol Pentreuchaf

138. Polisi Tân

Cyflwyniad

Y prif ddeddfwriaeth tân mewn sefydliadau annomestig yw'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (GDRh). Y mae'n ei gwneud yn ofynnol cael dulliau diogelwch tân sydd yn seiliedig ar risg, ac yn rhoi dyletswyddau penodol ar 'berson cyfrifol', sydd yn rheoli adeiladau – Pennaeth neu'r Pennaeth Cynorthwyol yn ein sefyllfa ni. Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod ei gyfrifoldebau fel cyflogwr yn llawn, ac yn ymroddedig i sicrhau, cyn belled a'i bod yn rhesymol ymarferol, diogelwch ei weithwyr, ac unrhyw berson arall sy'n cael ei effeithio gan ei ymgymryd o'r risgiau a gyflwynir gan dân. Bydd Cyngor Gwynedd hefyd yn cymryd camau rhesymol i leihau'r niwed i'w asedau a gweithrediad busnes y Cyngor yn sgil tân.

Amcanion

Trwy ddilyn y Polisi hwn, ein bwriad (a bwriad y Cyngor), cyn belled a'i bod yn rhesymol ymarferol, yw sicrhau bod;

1. Dyletswyddau a chyfrifoldebau cysylltiedig â diogelwch tân wedi eu diffinio yn glir, ac wedi eu deall.
2. Gwybodaeth, cyfarwyddiadau, hyfforddiant a goruchwyliaeth addas a digonol yn cael ei ddarparu i staff, a'i fod yn gymesurold â dyletswyddau a chyfrifoldebau unigolion gyda'r hyfforddiant yn cael ei adnewyddu tros gyfnodau addas.
3. Asesiadau risg addas a digonol yn cael eu cynnal, a'u cadw dan adolygiad mewn perthynas â risgiau tân rheolaethol a strwythurol, yn ogystal â sylweddau peryglus, gyda mesurau ataliol ac amddiffynnol yn cael eu gweithredu yn unol ag egwyddorion ataliol fel y'i diffinnir o fewn y GDRh.
4. Cynlluniau gweithredu wedi eu cytuno ar gyfer gwelliannau mewn perthynas â darganfyddiadau arwyddocaol yr asesiadau risg.
5. Mesuriadau ataliol ac amddiffynnol addas yn cael eu darparu yn unol â'r defnydd, maint, a'r gweithgareddau sy'n cymryd lle o fewn pob adeilad.
6. Unrhyw nodwedd o adeiladau Cyngor Gwynedd, ac unrhyw offer sy'n cael ei ddarparu mewn cysylltiad â sicrhau diogelwch tân, yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol, a hynny gan berson cymwys.
7. Cyngor Gwynedd yn cydweithredu ac yn cyd-drefnu â mudiadau perthnasol eraill yn ôl yr angen.
8. Gofynion diogelwch tân presennol yn cael eu hymgorffori i ddatblygiadau newydd neu waith atgyweirio sylweddol.
9. Y risg o dân yn sgil gwaith contractwyr yn cael ei asesu, gyda systemau gwaith diogel mewn lle.
10. Personau cymwysedig wedi eu penodi i gynorthwyo ag ymgymryd â mesurau diogelwch tân ataliol ac amddiffynnol.

Cwmpas y Polisi

1. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â holl Gyfadrannau Cyngor Gwynedd, gan gynnwys pob safle ac adeilad sydd dan reolaeth y Cyngor fel cyflogwr, perchennog neu brif ddeiliad.
2. Gellir trafod y polisi hwn yn g ngoleuni polisïau, gweithdrefnau, a chanllawiau ar lefel Corfforaethol, Cyfadrannol a Gwasanaeth yn ôl yr angen.

Cyfrifoldebau

Holl staff Y mae holl staff y Cyngor (gan gynnwys staff yr ysgol) yn gyfrifol am y rhestr a ganlyn;

1. Cymryd cyfrifoldeb rhesymol tros eu iechyd, diogelwch a lles eu hunain, ac unrhyw berson arall a allai gael eu heffeithio gan eu gweithredoedd neu gan eu hesgeulustra.
2. Cydweithredu â chyfarwyddiadau a gweithdrefnau diogelwch tân Corfforaethol perthnasol.
3. Sicrhau bod eu manau gwaith a'u swyddfeydd wedi eu cadw yn daclus gan gael gwared o unrhyw wastraff neu ddefnydd pacio llosgadwy.
4. Unrhyw offer trydanol nad yw'n hanfodol wedi ei ddiffodd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.
5. Adrodd am unrhyw ddiffygion diogelwch tân i'r Pennaeth neu'r Pennaeth Cynorthwyol.
6. Sicrhau bod unrhyw ymwelwyr y byddant yn eu gwahodd i mewn i'r ysgol, gan gynnwys pobl sy'n mynychu seminarau a chyfarfodydd, neu gontractwyr, yn derbyn gwybodaeth am weithdrefnau gwacâd argyfwng yr adeilad.

Cyngor Gwynedd fel cyflogwr yw'r 'person cyfrifol' yn unol â'r GDRh.

1. Mae Cynllun Dirprwyo i Swyddogion y Cyngor yn golygu bod Prif Swyddogion wedi eu hawdurdodi i reoli asedau'r Cyngor. Bydd cyfrifoldebau ymarferol y 'person cyfrifol' felly yn aros â Phenaethiaid Gwasanaeth.
2. Bydd y dyletswyddau sy'n cael eu rhoi ar y 'person cyfrifol' mewn eiddo hefyd yn cael eu rhoi ar bob person sydd ag unrhyw gyfran o reolaeth tros yr adeiladau hynny, cyn belled ag y bo'r gofynion yn ymwneud â materion o fewn eu rheolaeth.
3. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau penodol sy'n cael eu rhoi ar y person cyfrifol yn y GDRh, mae'r cyfrifoldebau canlynol yn cael eu rhoi ar yr unigolion sydd wedi eu rhestru isod.
- 4 Bydd y Pennaeth Gwasanaeth, Cefnogaeth Gofal Cwsmer, fel Pennaeth yr Adran Eiddo Corfforaethol, yn gyfrifol am;
 - i) Trwy'r Adran Eiddo Corfforaethol – Asedau;
 - ii) Gadw cofrestr asedau cyfredol o eiddo Cyngor Gwynedd.
 - iii) Gadw cynlluniau o adeiladau Cyngor Gwynedd yn dangos ble mae'r nodweddion diogelwch tân o fewn pob adeilad.
 - iv) Gadw cofrestr o Reolwyr Safle / Cydlynwyr Tân ar gyfer Eiddo Cyngor Gwynedd.

Trwy'r Adran Eiddo Corfforaethol – Cleient;

1. Derbyn asesiadau sydd wedi eu cwblhau a'u hanfon ymlaen at yr Ymgynghorydd Iechyd Diogelwch a Lles priodol unwaith iddynt gael eu cymeradwyo gan yr Uned Eiddo Corfforaethol (Asedau).
2. Mynychu cyfarfodydd safle ar gais gan Ymgynghorydd Iechyd Diogelwch a Lles y Gyfadran, er mwyn trafod a chytuno ar faterion eiddo i'w cynnwys mewn cynllun gweithredu ar faterion diogelwch tân ar gyfer pob un o adeiladau Cyngor Gwynedd.
3. Darganfod cost ar gyfer gwaith arfaethedig a chael yr Uned Eiddo Corfforaethol (Asedau) i ail gymeradwyo.
4. Rheoli trefniadau ar gyfer adolygu'r asesiadau risg tân.

Bydd Pennaeth Gwasanaeth Ymgynghoriaeth yn gyfrifol am:

1. Sicrhau bod yr holl gcontractwyr sydd yn cael eu comisiynu i gwblhau unrhyw waith cynnal a chadw, gan gynnwys 'gwaith poeth', gyda system ddiogel o weithio, a'u bod wedi eu cyfarwyddo ar bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol Cyngor Gwynedd.
2. Monitro gwaith contractwyr er mwyn sicrhau bod gwaith sydd wedi ei gomisiynu wedi ei gwblhau yn llawn yn unol â'r gofynion.
3. Adrodd yn ôl i'r Adran Eiddo Corfforaethol (Cleient) ar waith sydd wedi ei gwblhau er mwyn galluogi i asesiadau risg tân gael eu hadolygu fel sydd yn briodol.

Rheolwyr

Bydd dyletswydd ar bob Rheolwr i sicrhau:

1. Bod yr holl brosesau a gweithgareddau dan eu rheolaeth, gan gynnwys y defnydd o sylweddau peryglus, wedi cael eu hasesu ar gyfer y risg o dân, gyda mesuriadau rheolaeth addas a digonol mewn lle.
2. Bod polisi / cynllun argyfwng gwacâd personol (PEEP) wedi ei baratoi ar gyfer staff perthnasol o fewn eu gwasanaeth, a bod y manylion perthnasol yn cael eu pasio i'r Rheolwr Safle a marsialiaid tân.
3. Bod trefniadau argyfwng digonol mewn lle o fewn eu hadrannau.
4. Bod eu staff wedi derbyn hyfforddiant addas a digonol sydd yn gymesurool â'u cyfrifoldebau diogelwch tân.
5. Marsialyddion tân wedi eu penodi mewn cydweithrediad â Rheolwyr Safle.

Llywodraethwyr Ysgol

1. Sicrhau fod ymateb priodol i unrhyw arweiniad ar faterion diogelwch tân a ddarperir gan y Gwasanaeth;
2. Sefydlu trefniadau ar gyfer cofnodi, ymchwilio ac adrodd ar unrhyw achos o dân.
3. Sicrhau fod trefn wedi ei sefydlu ar gyfer rheoli risgiau yn ymwneud a materion rheolaethol a gaiff eu hadnabod o fewn asesiad risg tân.

Rheolwyr Safle

Mae dyletswyddau pob un o Reolwyr Safle Cyngor Gwynedd yn cynnwys y rhestr a ganlyn, mewn perthynas â phob adeilad y maent yn gyfrifol amdano;

1. Sicrhau bod Cynllun Gweithredu Tân yn cael ei gynnal a'i gadw a'i fod ar gael mewn man cyraeddadwy yn yr adeilad ar gyfer ei archwilio.
2. Sicrhau bod profion diogelwch tân rheolaidd yn cael eu cwblhau a'u cofnodi yn yr adeiladau y maent yn gyfrifol amdanynt, yn unol â Chynllun Gweithredu Tân yr adeilad.
3. Sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw o bob ymchwiliad, arolygiad, prawf, patrôl tân, a gweithdrefnau ymarfer tân yn llyfr Cofnodi Diogelwch Tân yr adeilad ac adrodd am unrhyw ddiffygion i ddesg gymorth yr Adran Eiddo.
4. Cynnal arolygiadau rheolaidd o lwybrau dianc, mynediad ar gyfer y frigâd dân, cyfleusterau diffodd tân, a manau gwaith, gan fonitro'r gofynion yng Nghynllun Diogelwch Tân yr adeiladau.
5. Trefnu ymarferion tân rheolaidd
6. Sicrhau fod unrhyw fater Eiddo sy'n codi o PEEP yn cael sylw (ymhellach i gael gwybod am y materion gan Reolwyr Llinell).
7. Monitro ac arolygu'r trefniadau ar gyfer galw'r frigâd dân.
8. Adrodd am unrhyw ddigwyddiad o dân i Ymgynghorydd Iechyd Diogelwch a Lles y Gyfadran berthnasol cyn gynted ag y bo modd.
9. Sicrhau nad oes unrhyw waith yn dechrau gan gcontractwr, is-gcontractwr, aelod o staff neu unrhyw berson arall (boed yn gyflogedig a'i peidio) oni bai ei fod wedi ei awdurdodi unai gan yr Adran Eiddo neu'r Gwasanaeth Ymgynghoriaeth.
10. Adrodd am unrhyw bryderon ynglŷn â safon gwaith neu gymhwysedd contractwyr yn gweithio ar y safle i Ymgynghorydd Iechyd Diogelwch a Lles y Gyfadran berthnasol cyn gynted ag y bo modd.
11. Canfod pobl addas i'w penodi fel Marsialyddion Tân a rhoi gwybod i Reolwyr Llinell yr unigolyn fel y gallant awdurdodi'r penodiad.
12. Sicrhau yr ymdrinnir â materion rheoli sydd yn cael eu canfod mewn asesiadau risg tân yn unol â Chynllun Gweithredu Tân y safle.
13. Sicrhau fod staff yn cael gwybod am unrhyw drefniadau dros dro oherwydd gwaith cynnal a chadw.

Ar gyfer safleoedd ble mae Rheolwr Safle wedi ei leoli, bydd y Rheolwr Safle yn ymgymryd â dyletswyddau'r Cydlynnydd Tân. Ar gyfer adeiladau ble nad oes Rheolwr Safle wedi ei leoli ar y safle, mae'n rhaid penodi Cydlynnydd Tân.

Cydlynwyr Tân

Mae dyletswyddau cydlynwyr tân yn cynnwys;

1. Hyrwyddo amgylchedd waith ddiogel bob amser.
2. Pan fo larwm yn seinio, gweithredu'r dyletswyddau hynny sydd yn ofynnol ar gyfer gwacâd diogel, a sicrhau bod y staff a'r ymwelwyr i gyd yn mynd i'r man ymgynnull.
3. Mewn achos o ymweliad gan Swyddog Gorfodaeth, cyflwyno iddynt y dogfennau gweithdrefnau sydd ar gael ar y safle, gan gynnwys y Llyfr Cofnodi Tân.
4. Adrodd am unrhyw ymweliad gan Swyddog Gorfodaeth i'r Rheolwr Safle.

5. Darparu'r ddyfais dân gyntaf i gyrraedd y safle i'r swyddog cyfrifol, pan fo tân, ynghyd â'r wybodaeth a ganlyn:

- Nifer o bobl sy'n parhau i fod yn yr adeilad

- Os yn berthnasol - unrhyw sylweddau peryglus sydd yn yr adeilad a fyddai'n debygol o ddod yn gysylltiedig

- Ble mae'r tân wedi ei leoli

- Y ffordd orau i gyrraedd pobl sydd wedi eu dal gan y tân, neu gyrraedd at leoliad y tân.

Dyletswyddau Ymgynghorwyr Iechyd, Diogelwch a Lles, o ran adeiladau/ gwasanaethau o fewn eu Cyfadran yw;

1. Darparu cymorth a chynghor ar faterion diogelwch tân o fewn eu Cyfadran berthnasol, a chyhoeddi canllawiau penodol fel cefnogaeth i'r Polisi hwn yn ôl yr angen.

2. Trefnu cyfarfod safle â Rheolwyr Safle ac aelod o'r Uned Eiddo Corfforaethol (Cleient) er mwyn cynhyrchu cynllun gweithredu ar y materion sydd wedi eu hamlygu mewn asesiad risg.

3. Cynorthwyo Rheolwyr Safle i gynhyrchu cynllun argyfwng tân ar gyfer adeiladau o fewn eu Cyfadran.

4. Monitro gweithrediad y cynlluniau gweithredu.

5. Cwblhau archwiliadau ar faterion diogelwch tân ar gyfer adeiladau o fewn eu Cyfadran.

6. Ymchwilio digwyddiadau tân arwyddocaol o fewn eu Cyfadran a pharatoi adroddiadau.

7. Adrodd ar achos perthnasol o dân o fewn eu Cyfadran i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn unol â Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 1995

Adain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Dyletswyddau y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, mewn cydweithrediad â'r Ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch a Lles (Adnoddau) yw;

1. Sicrhau bod Polisi Diogelwch Tân Corfforaethol yn cael ei gadw dan arolygaeth, a'i fod yn adlewyrchu deddfwriaeth diogelwch tân gyfredol.

2. Sicrhau bod canllawiau Diogelwch Tân Corfforaethol yn cael eu cadw dan arolygaeth, a'u bod yn adlewyrchu canllawiau'r Llywodraeth ac ymarfer da mewn diwydiant.

3. Gweithredu fel prif bwynt cyswllt â'r Gwasanaeth Tân ac Achub mewn perthynas â mesurau diogelwch tân corfforaethol.

4. Cysylltu â'r Uned Hyfforddiant Corfforaethol er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant corfforaethol a ddarperir mewn perthynas â dyletswyddau diogelwch tân yn addas, digonol ac i bwrpas.

Marsialiaid Tân

Dyletswyddau'r Marsialiaid Tân (sydd i'w penodi'n ysgrifenedig) yw:

1. Clirio pobl o'u hardal ddynodedig mewn gwacâd tân

2. Delio â phobl ag anghenion arbennig yn yr adeilad (bydd cynllun PEEP wedi ei baratoi gan Reolwyr Llinell.)

3. Adrodd wrth y Cydlynnydd Tân yn y man ymgynnull fod eu hardal yn glir.

4. Diffodd tân ag offer diffodd tân os ydynt wedi derbyn hyfforddiant, ac os ydynt yn hyderus i wneud, ac os yw'n ddiogel gwneud hynny.

5. Ymdrin ac unrhyw beryglon tân â ddaw i'w sylw, a ble nad allant ymdrin â'r mater yna dylent ei adrodd i'r Rheolwr Safle.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____

* Gellir gweld Polisi llawn Diogelwch Tân Gwynedd yn y Ffeil Gweithdrefnau Diogelwch Tân